**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mehefin 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 6:YSGOL LLANAELHAEARN

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i gadarnhau'n derfynol i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2-2- a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plennydd, Y Ffôr o 1af Medi 2020, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i Rybydd Statudol gan ei gyhoeddi i gau'r ysgol ar 5ed Mawrth 2020 gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar y 3 Ebrill 2020 ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. O ganlyniad mae'r Adran Addysg yn gofyn i'r Cabinet i gadarnhau yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Bu i'r Aelod Lleol roi ei farn yn y cyfarfod.

---